

E3. Sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y sefydliad

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â nodi'r angen am gyllid ychwanegol i ariannu gweithgareddau arfaethedig y sefydliad, a sicrhau'r cyllid hwn. Efallai bod y sefydliad eisoes yn cynhyrchu rhywfaint o incwm dros ben trwy gyflenwi ei gynhyrchion a/neu wasanaethau yn barhaus. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ddigon i ariannu gweithgareddau fel buddsoddiad mewn cyfarpar newydd neu newidiadau arfaethedig i gynhyrchion a/neu wasanaethau, ac mewn achosion fel hyn efallai y bydd angen cyllid ychwanegol.

Agwedd allweddol ar yr uned hon yw nodi mathau o gyllid a darparwyd cyllid sy'n briodol i anghenion penodol y sefydliad.

Tra y byddech yn disgwyl defnyddio arbenigedd arbenigwyr ariannol, nid oes disgwyl i chi'ch hun fod yn arbenigwr ariannol.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol neu uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned hon?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad** a **B4. Rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Os cwmni bach yw'ch sefydliad, dylech edrych ar Uned *G3 Get finance for the business* y mae Cynllun Datblygu Menter Cwmnïau Bychain (SFEDI) wedi'i datblygu yn benodol ar gyfer cwmnïau bychain a allai fod yn fwy addas i'ch anghenion. Gallwch gael gwybodaeth am yr uned oddi wrth SFEDI ffôn: 0114 241 2155 neu wefan SFEDI (www.sfedico.uk).

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y sefydliad. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Meddwl yn strategol
- Gofyn cwestiynau
- Rheoli gwybodaeth
- Gwerthuso
- Cyflwyno gwybodaeth
- Cyfathrebu
- Gwneud penderfyniadau
- Rheoli risg
- Blaenoriaethu
- Adolygu
- Trafod telerau
- Cynllunio ar gyfer argyfwng
- Monitro
- Cynnwys pobl eraill
- Cynllunio
- Darogan
- Dylanwadu a pherswadio
- Datrys problemau
- Arweinyddiaeth

E3. Sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y sefydliad

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Nodi'r cyllid ychwanegol sy'n ofynnol i ariannu gweithgareddau arfaethedig y sefydliad.
2. Ceisio arbenigedd ariannol arbenigol a'i ddefnyddio yn effeithiol.
3. Gwerthuso costau, buddiannau a risgiau'r mathau o gyllid a darparwyr cyllid mae'r sefydliad yn eu defnyddio ar hyn o bryd, a'r mathau o gyllid a darparwyr cyllid eraill y gellid eu defnyddio.
4. Dethol y mathau o gyllid mwyaf priodol i anghenion y sefydliad, gan ystyried lefelau risg derbynol a barn budd-ddeiliaid, a nodi darparwyr cyllid posibl.
5. Paratoi cynigion ac argymhellion wedi'u costio yn llawn ar gyfer sicrhau cyllid ychwanegol a'u cyflwyno i bobl berthnasol yn y sefydliad a, lle bo hynny'n briodol, i unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol, a thrafod a chytuno ar ddarparwyr posibl.
6. Sicrhau bod cynigion, neu geisiadau eglur yn cael eu cyflwyno yn amserol i ddarparwyr cyllid posibl a cheisio'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd.
7. Rhoi cytundebau ffurfiol ar waith gyda darparwyr ar gyfer derbyn symiau o gyllid y cytunwyd arnynt, ar adegau y cytunwyd arnynt ac, fel bo'n briodol, atodlenni costau ac ad-daliadau y cytunwyd arnynt.
8. Nodi unrhyw ddiffyg yn lefel y cyllid ychwanegol a sicrhawyd a chymryd camau priodol.
9. Rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith i ddelio ag unrhyw broblemau â'r cyllid ychwanegol sydd ar gael ac unrhyw newidiadau i lefel y cyllid ychwanegol sy'n ofynnol.
10. Monitro effeithiolrwydd y cytundebau ar gyfer darparu cyllid ychwanegol, nodi a gwneud newidiadau lle bo angen, a nodi gwelliannau i'r dyfodol.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn myfyrio'n rheolaidd ar eich profiadau eich hun a phrofiadau pobl eraill ac yn defnyddio'r rhain i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.
2. Byddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisiau'r sefydliad a chodau proffesiynol, ac yn sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â'r rhain.
3. Byddwch yn sensitif i anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid ac yn rheoli'r

rhain yn effeithiol.

4. Byddwch yn nodi goblygiadau neu ganlyniadau sefyllfa.
5. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
6. Byddwch yn nodi ac yn gweithio gyda phobl a sefydliadau sy'n gallu darparu cefnogaeth i'ch gwaith.
7. Byddwch yn mynd ati i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau.
8. Byddwch yn effro i risgiau posibl.
9. Byddwch yn nodi a ac yn codi pryderon sy'n ymwneud â moeseg.
10. Byddwch yn adnabod newidiadau mewn amgylchiadau yn ddiymdroi ac yn addasu cynlluniau a gweithgareddau yn unol â hynny.
11. Byddwch yn gweithio yn ôl gweledigaeth o'r dyfodol sydd wedi'i diffinio'n eglur.

E3. Sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Pam y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar sefydliadau ar gyfer eu gweithgareddau arfaethedig
2. Lle i sicrhau gwybodaeth er mwyn nodi gofynion sefydliad o ran cyllid ychwanegol, a sut i werthuso'r wybodaeth hon
3. Ffynonellau arbenigedd ariannol arbenigol, a sut i'w defnyddio i'r eithaf
4. Gwahanol fathau o gyllid
5. Gwahanol ddarparwyr cyllid
6. Sut i werthuso costau, buddiannau a risgiau gwahanol fathau o gyllid a darparwyr cyllid
7. Meini prawf ar gyfer dethol mathau o gyllid a darparwyr cyllid sy'n briodol i anghenion y sefydliad a barn y budd-ddeiliaid
8. Pwysigrwydd risg wrth sicrhau cyllid ychwanegol a ffyrdd o nodi a rheoli lefel y risg
9. Sut i gyfrifo cost lawn sicrhau cyllid oddi wrth ddarparwyr
10. Pwysigrwydd ymgynghori â phobl berthnasol yn y sefydliad a budd-ddeiliaid allweddol ar gynigion ac argymhellion ar gyfer sicrhau cyllid ychwanegol
11. Pwysigrwydd cyflwyno cynigion neu geisiadau clir i ddarparwyr cyllid posibl a chaniatáu digon o amser i'w cyflwyno a'u hystyried
12. Y math o gytundebau ffurfiol a ddylai fod ar waith gyda darparwyr cyllid a'r hyn y dylai'r rhain ei gwmpasu
13. Y mathau o gamau y bydd angen eu cymryd o bosibl os bydd diffyg yn y cyllid ychwanegol
14. Pam bod angen rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith o ran sicrhau cyllid ychwanegol, a'r mathau o ddigwyddiadau annisgwyl a allai godi
15. Sut i fonitro effeithiolrwydd cytundebau sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer darparu cyllid ychwanegol
16. Y newidiadau bydd angen eu gwneud o bosibl i gytundebau ar gyfer cyllid ychwanegol

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Y mathau o gyllid a darparwyr cyllid y tueddir i'w defnyddio yn eich diwydiant neu'ch sector, a pham fod y rhain yn cael eu dewis
2. Canllawiau a chodau ymarfer ac unrhyw ofynion deddfwriaethol, rheoliadol a moesegol mewn perthynas â mathau o gyllid a darparwyr cyllid yn eich diwydiant neu'ch sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Gweledigaeth, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad
2. Gweithgareddau arfaethedig y sefydliad, gan gynnwys y rheiny y mae angen cyllid ychwanegol arnynt
3. Budd-ddeiliaid y sefydliad a'u barn ynglyn â chyllido gweithgareddau'r sefydliad
4. Y mathau o gyllid a darparwyr cyllid mae'r sefydliad yn eu defnyddio ar hyn o bryd, a'r mathau o gyllid a darparwyr cyllid eraill y gellid eu defnyddio, a'u costau, eu buddiannau a'u risgiau cysylltiedig
5. Anghenion penodol y sefydliad o ran sicrhau cyllid ychwanegol, gan gynnwys agwedd y sefydliad tuag at risg
6. Pobl berthnasol yn y sefydliad ac unrhyw fudd-ddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw ar gynigion ac argymhellion i sicrhau cyllid ychwanegol
7. Cynigion neu geisiadau a gyflwynwyd i ddarparwyr cyllid, a sut bwriwyd ymlaen â'r rhain
8. Cytundebau ffurfiol â darparwyr cyllid ychwanegol i'r sefydliad
9. Y cynlluniau wrth gefn a roddwyd ar waith mewn perthynas â chyllid ychwanegol
10. Yr arbenigedd ariannol arbenigol y mae'ch sefydliad yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd, a ffynonellau eraill posibl o arbenigedd
11. Y systemau sydd ar waith i fonitro effeithiolrwydd y cytundebau ar gyfer cyllid ychwanegol a sut i nodi newidiadau i gytundebau a gwelliannau i'r dyfodol